Y dryw bach dewr

Dewrder / Rhannu

Amser maith yn ôl roedd hi wedi bod yn aeaf oer iawn. Am fisoedd roedd eira trwm wedi gorchuddio'r caeau i gyd. Yn ystod y nos byddai'r tymheredd yn disgyn yn isel iawn. Doedd yna ddim bwyd yn unman i'r adar a'r anifeiliaid.

Un diwrnod daeth yr adar at ei gilydd. Roedden nhw bron â llwgu eisiau bwyd. Doedd yna ddim aeron ar y coed yn unman. Felly, fe fuo nhw'n trafod beth i'w wneud. Y cyntaf i siarad oedd y dryw bach. "Mae'n rhaid i ni gael gwres o rywle. Mae'r haul wedi diflannu ers wythnosau. Pwy fyddai'n fodlon mynd i chwilio am yr haul er mwyn i ni gael gwres ar y ddaear?"

Roedd pob un o'r adar yn cydweld â'r dryw bach ond pwy oedd yn ddigon dewr i fynd i chwilio am yr haul? Ddywedodd yr un o'r adar eraill air. Yn sydyn dyma'r dryw bach yn dweud, "Rydw i yn barod i fynd i chwilio am yr haul."

"Ond," meddai un o'r adar eraill, "bydd yr haul yn boeth a bydd yn dy losgi'n golsyn."

"Efallai'n wir," meddai'r dryw, "ond mi ydw i am fentro mynd i chwilio am yr haul er mwyn i mi gael dod â gwres yn ôl i'r ddaear."

Roedd yr adar i gyd wrth eu bodd bod y dryw bach am fynd i chwilio am yr haul. Dechreuodd hedfan, dros y coed a'r adeiladau, dros y mynyddoedd, yn uwch ac yn uwch. O'r diwedd roedd wedi diflannu tu hwnt i'r cymylau. Doedd yna ddim golwg ohono'n unman.

"Wela ni byth mohono eto," meddai'r dylluan gan gau un llygad.

"O na, gobeithio nad ydi hynny'n wir!" meddai sigl di gwt dan gerdded yn fan ac yn fuan a chodi ei chynffon i fyny ac i lawr. Aeth y gaeaf heibio a'r adar i gyd yn dal yn llwglyd iawn.

Un bore, roedd sŵn mawr yn y goedwig. Roedd yr adar i gyd yn canu a thrydar. Roedd y dryw wedi dychwelyd a thorch o

dân yn ei grafangau. Daeth yr adar i gyd o'i gwmpas i gynhesu. Ond y dryw bach druan roedd pob pluen ar ei gorff wedi llosgi'n llwyr. Yr unig blu oedd ganddo oedd y plu ar ei adenydd. Roedd yr haul poeth wedi llosgi ei blu i gyd!
"Mi rwyt ti'n aderyn dewr iawn," meddai'r adar i gyd. "Beth gawn ni ei wneud i ddiolch i ti am yr hyn wyt ti wedi'i wneud i ni?"
Torsythodd robin a'i fron goch ac meddai wrth yr adar eraill, "Beth am i bob un ohonon ni roi pluen i'r dryw bach."
Ymhen dim roedd pob aderyn yn y goedwig wedi rhoi pluen i'r dryw. Pob aderyn ond un, sef y dylluan.
"Mi rydw i'n rhy oer i roi pluen i'r dryw," meddai'r dylluan. "Rhy-y-y oer!"
Aderyn felly ydi'r dylluan – aderyn sydd braidd yn hunanol. A thrwy gydol y flwyddyn mae'r dylluan yn gwisgo gwisg o blu trwchus ac yn hwtian ymhob tymor o'r flwyddyn.

O Dduw, weithiau rydw i'n gwrthod rhannu dim efo'm ffrindiau.
Wnei di ddysgu i mi sut i rannu? Amen.

- Sut aderyn oedd y dryw bach?
- Ydych chi'n credu bod robin wedi cael syniad da?
- Sut fuasech chi'n disgrifio'r dylluan?